Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Mai 2025

(Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg)

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer hap-samplu'r Panel Craffu

## Ymarfer samplu

## Defnyddio grym

## Canfyddiadau ac adborth yr aelodau

## Mai 2025

## Cynnwys

1. Trosolwg, Cefndir, Diben, a Methodoleg 3

2. Crynodeb gweithredol 6

3. Adolygiad o gofnodion stopio a chwilio 7

4. Ymateb i ymholiadau a godwyd 15

5. Camau nesaf 22

## 1. Trosolwg, Cefndir, Diben, a Methodoleg

Mae'r llawlyfr sicrhau ansawdd ar wefan Heddlu Dyfed-Powys yn nodi cefndir, diben, a methodoleg y panel.

Ar 21 Mai 2025, cyfarfu aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys i adolygu detholiad o ddigwyddiadau defnyddio grym yn ymwneud â phlant, menywod, ac aelodau o'r gymuned sy'n Ddu neu'n aelodau o grŵp ethnig lleiafrifol.

Yn 2024, cyhoeddodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n nodi blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys dros y pedair blynedd nesaf o ran cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys:

- **a.** Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- **b.** Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- **c.** Meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig ac unigolion nad ydynt ei rhannu.

Deddfwriaeth sy'n diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach yw Deddf Cydraddoldeb 2010. Dyma'r nodweddion gwarchodedig hynny:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, neu genedlaethol
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Gofynnwyd i'r panel asesu saith cofnod dalfa a gofynnwyd iddynt asesu yn erbyn y canllawiau canlynol a gymerwyd oddi wrth Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, yn benodol o'r '*Canllawiau ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Wahaniaethu*':

> *"Y prawf ar gyfer gwahaniaethu uniongyrchol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw 'a gafodd yr unigolyn ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig?' Mae 'llai ffafriol' yn awgrymu cymhariaeth. Yn yr un modd, y prawf ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol yw bod polisi, arfer neu weithdrefn yn rhoi pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol dan 'anfantais benodol'."*

Er mwyn cefnogi dealltwriaeth y panel o ddefnyddio grym, rhoddodd rhingyll heddlu o'r Uned Plismona Ffyrdd, sydd wedi rhoi mewnbynnau ar stopio a chwilio a defnyddio grym i baneli craffu eraill fel y Grŵp Cynghori Annibynnol a'r Llysgenhadon Ieuenctid, fewnbwn ar bwrpas pwerau defnyddio grym wrth gadw'r heddwch a chynnal y gyfraith; gan bwysleisio pwysigrwydd cyfiawnhau eu defnydd.

Atgoffwyd y panel o'r ystod o fesurau defnyddio grym sydd ar gael i swyddogion heddlu sy'n cynnwys:

- Gosod gefynnau
- Amddiffynnydd
- Sgiliau heb arfau
- Chwistrell lidiog
- Ataliadau llawr
- Ataliadau corfforol
- Dyfeisiadau taser
- Arfau tanio
- Arbedwr poeri a brathu
- Defnyddio cŵn
- Pastwn
- Cyfathrebu tactegol
- Arall / Addasu

I ategu hyn, rhoddodd y rhingyll fewnbwn hefyd ar y pwerau sydd gan yr heddlu i ddefnyddio grym, sy'n cynnwys:

- Cyfraith gyffredin
- Adran 3 o Ddeddf Cyfraith Troseddol 1967
- Adran 117 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
- Adran 135 a 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl (2005)
- Adran 5 a 6 o Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005).

Yn ogystal â'r uchod, pwysleisiodd y rhingyll hefyd bwysigrwydd bod y panel yn deall canfyddiad y swyddog (ystyried yr hyn y mae'n ei wybod ar y pryd), asesu a oedd defnyddio grym yn briodol, ac a ystyriwyd defnyddio grym yn ddewis olaf.

Er mwyn cefnogi'r panel, diffiniodd y rhingyll y term grym rhesymol fel, beth all y swyddog ei weld neu ei glywed; a pha wybodaeth sydd ganddo i gefnogi ei asesiad. Mae hyn hefyd yn unol â'r Model Penderfyniadau Cenedlaethol a ddefnyddir i hyfforddi swyddogion i reoli ac asesu perygl ac i wneud penderfyniadau yn effeithiol.

Cafodd y panel y dasg o graffu ar ddetholiad o ffurflenni defnyddio grym a'u fideos camera corff cysylltiedig er mwyn asesu'r meini prawf canlynol:

1. Penderfynu ar y math o rym a ddefnyddwyd gan swyddogion ac asesu, o edrych ar fideo y camera corff, a oedd y grym a ddefnyddiwyd yn angenrheidiol, yn briodol, ac yn gymesur.

2. Y prawf ar gyfer gwahaniaethu uniongyrchol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw 'a gafodd yr unigolyn ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig?' Mae 'llai ffafriol' yn awgrymu cymhariaeth. Y panel i asesu a gafodd yr unigolion y defnyddir grym yn ei erbyn ei drin yn llai ffafriol gan y swyddogion.

## 2. Crynodeb gweithredol

At ei gilydd, adolygodd y panel saith cofnod defnyddio grym.

**Adborth cadarnhaol:**

- Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ym mhob digwyddiad a adolygwyd, ni welodd y panel unrhyw bryderon yn ymwneud â chydraddoldeb nac amrywiaeth. Cyfeiriodd y panel at un ymholiad ynghylch un unigolyn sy'n Ddu neu'n ethnig lleiafrifol, a gafodd ei osod mewn gefynnau a'i chwilio yn gyntaf cyn ei ddau gymar gwyn arall. Gweler yr adran '*Ymateb i Ymholiadau a Godwyd*' am fwy o fanylion.

- Roedd y defnydd o rym yn cael ei ystyried yn rhesymol ac yn gymesur

Ystyriodd y panel fod pedwar o'r saith digwyddiad defnyddio grym a adolygwyd yn rhesymol ac yn gymesur. Roedd dau achos lle gosodwyd gefynnau heb gyfiawnhad llafar ac ystyriwyd y defnydd o rym yn erbyn unigolyn ifanc yn ormodol.

**Meysydd i'w gwella:**

- Gwallau wrth gofnodi ffurflenni defnyddio grym

Nododd y panel nifer o ffurflenni oedd yn anghyson â'r hyn a welsant ar fideo camera corff. Fe wnaethant hefyd nodi mwy nag un achlysur lle mae swyddogion wedi nodi eu bod yn cario dyfeisiadau taser pan nad oeddent wedi'u hyfforddi i gario un. Bu achlysur hefyd pan nododd swyddogion fod dyfais taser wedi'i thynnu, pan nad oedd tystiolaeth o hyn ar y fideo camera corff a welwyd.

## 3. Adolygiad o gofnodion stopio a chwilio

**Cofnod 1 – (Benyw)**

**Amgylchiad**
Methodd y fenyw â darparu prawf anadl ar ochr y ffordd ac mae wedi cael ei harestio o ganlyniad.

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Dangosodd y swyddog bryder priodol am y fenyw, gosododd y gefynnau arni mewn ffordd sensitif, gan wirio pa mor dynn oeddent.
- Dangosodd y swyddog empathi amlwg a phriodol tuag at fenyw a oedd yn ymddangos fel pe bai'n cael argyfwng ac eglurodd pa gymorth oedd ar gael yn y ddalfa.
- Roedd cyfathrebu da drwyddo draw, ac roedd y swyddog yn bwyllog ac yn gwrtais.
- Rhoddodd y swyddog sawl cyfle i'r unigolyn ddarparu sampl ac eglurodd y weithdrefn arestio pe bai hi'n parhau i wrthod.
- Roedd swyddog benywaidd yn bresennol at ddibenion chwiliad, sy'n golygu bod swyddogion yn ystyried ei rhywedd fel nodwedd warchodedig.

**Meysydd i'w gwella**

- Roedd y panel yn rhanedig yn eu barn ynghylch a oedd defnyddio grym yn gymesur ac yn angenrheidiol. Roedd y fenyw yn ufudd; er ei bod yn amlwg yn emosiynol ac o dan straen, a gosododd y swyddog gefynnau arni ar unwaith, a ni chlywodd y panel y swyddog yn rhoi cyfiawnhad llafar dros wneud hynny.
- Nid yw fideo'r camera corff yn dangos cyd-destun, sef yr unigolyn dan sylw yn cael ei stopio yn ei cherbyd, ac nid yw'r cyd-destun yn cael ei amlinellu yng nghrynodeb y digwyddiad ar y ffurflen defnyddio grym ychwaith. Roedd hyn yn ei gwneud yn heriol i'r panel ddeall cyd-destun pam roedd hi'n siarad â swyddogion.
- Darganfuwyd problemau o ran cwblhau'r cofnod defnyddio grym. Ni wnaeth y swyddog nodi ethnigrwydd hunanddiffiniedig, cyflwr iechyd, na'r defnydd o rym yn deillio o achos o stopio a chwilio ar y ffurflen. Diffiniodd y swyddog ei rhywedd hefyd fel 'arall' yn lle benyw.
- Er bod y swyddog wedi nodi bod ffactorau effaith yn cynnwys alcohol ac iechyd meddwl, yn yr adran cyflwr iechyd meddwl canfyddedig, atebodd y swyddog nad oedd ganddi gyflwr o'r fath.

**Materion a godwyd**

- Y cyfiawnhad dros osod gefynnau oedd 'arestio'. A oes angen i swyddogion osod gefynnau ar unigolyn sy'n cael ei arestio? Os felly, ar ba gam y caiff gefynnau eu tynnu?
- Er bod y swyddog wedi nodi bod ffactorau effaith yn cynnwys alcohol ac iechyd meddwl, yn yr adran cyflwr iechyd meddwl canfyddedig, atebodd y swyddog nad oedd ganddi gyflwr o'r fath. A oes unrhyw eglurder y gallwch ei gynnig ynghylch hyn?

**Cofnod 2 – (Benyw)**

**Amgylchiad**

Mae dioddefwr wedi hysbysu'r heddlu fod ei bartner wedi ymosod arno wrth yrru a bod y partner a ymosododd wedi cymryd ei gerbyd heb ganiatâd wedi hynny.

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Nid oedd unrhyw arwydd na phryder o unrhyw materion cydraddoldeb neu amrywiaeth o ran y rhyngweithiad â'r fenyw a welwyd.
- Roedd swyddogion yn bwyllog wrth ryngweithio â menyw a oedd yn swnio fel pe bai wedi meddwi ac egluron nhw pam ei bod yn cael ei harestio.
- Roedd yn ymddangos bod swyddogion yn ymwybodol o'u hamgylchoedd (sgwrsio mewn man cyhoeddus) ac amser y nos/oriau mân y bore drwy fonitro eu lleisiau yn ystod eu trafodaeth â'r fenyw dan sylw.
- Nododd y panel fod hwn yn ddigwyddiad domestig gyda gwrth-honiad, a oedd yn gwneud y digwyddiad yn fwy cymhleth i swyddogion ei drin.

**Meysydd i'w gwella**

- Ni chlywodd y panel y cyfiawnhad dros osod gefynnau. Gofynnwyd i'r fenyw estyn ei dwylo, ac roedd pedwar swyddog yn sefyll o'i chwmpas. O ystyried maint corff y fenyw a'r ffaith ei bod yn cydymffurfio, nid oedd rhai aelodau o'r panel wedi'u hargyhoeddi bod y grym a ddefnyddiwyd yn angenrheidiol nac yn gymesur. Fodd bynnag, heriodd aelodau eraill y panel hyn drwy awgrymu bod yr honiad yn cynnwys trais, bod y fenyw wedi ymddangos fel petai hi o dan ddylanwad sylwedd anhysbys a bod cyfiawnhad wedi'i nodi ar y ffurflen, sef i'w hatal hi rhag dianc. Gan na ddarparwyd y cyfiawnhad gan y swyddog a wnaeth ei harestio, dyna oedd achos y diffyg eglurder.

- Nodwyd pedwar rheswm dros ddefnyddio grym ond ni wnaed unrhyw adolygiad gan oruchwyliwr.

- Ymddengys bod angen gloywi sgiliau Hyfforddiant er Diogelu'r Cyhoedd y swyddog gan fod mwy na'r 12 mis gofynnol wedi mynd heibio ers ei hyfforddiant gloywi diwethaf.

- Pan oedd y swyddog yn esbonio i'r unigolyn y rhesymau dros ei harestio, defnyddiodd y swyddog jargon yr heddlu gan gynnwys y term cymryd heb gydsyniad y perchennog a chlywyd y fenyw yn gofyn am eglurhad, ond ni chafodd hyn ei egluro.

- Roedd yr amser a gofnodwyd ar y ffurflen yn wahanol i'r amser ar fideo'r camera corff. Doedd dim sôn am swyddogion eraill yn bresennol ychwaith.

**Materion a godwyd**

- Oes rheswm pam nad oes unrhyw oruchwyliwr wedi adolygu'r digwyddiad hwn o ddefnyddio grym?

- Cwestiynwyd y cofnod defnyddio grym. Un agwedd a ganfu'r panel oedd bod y swyddog wedi nodi nad oedd wedi'i hyfforddi na'i awdurdodi i ddal dyfais taser; ac eto, datgelodd ei fod yn cario dyfais o'r fath. A ellir egluro hyn?

| Cofnod 3 – (Benyw) |
|---|
| **Amgylchiad**<br><br>Mae'r heddlu'n derbyn adroddiad am fenyw yn hunan-niweidio â llafn rasel. Mae menyw wedi dianc o'r ysbyty. Cafodd ei lleoli a'i dal gan swyddogion oherwydd ei bod yn bygwth hunanladdiad. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Nid oedd unrhyw arwydd na phryder o unrhyw materion cydraddoldeb neu amrywiaeth o ran y rhyngweithiad â'r fenyw a welwyd.<br><br>• Nodwyd bod y fenyw yn gwrthsefyll yn oddefol ymgais y swyddog i osod gefynnau arni, a oedd ym marn y panel yn gymesur i atal cynyddu'r niwed iddi hi ei hun neu i'r swyddog. Daethpwyd o hyd i'r fenyw ar ôl iddi ddianc; felly, ystyriwyd ei bod yn gymesur rhoi gefynnau i atal y risg o ddianc.<br><br>• Roedd dull y swyddog yn cynnwys cyfeirio at y fenyw gan ddefnyddio ei henw cyntaf, a barn y panel oedd bod hyn yn effeithiol i leihau'r risg o waethygu. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Mae'r amser ar fideo'r camera yn wahanol i'r hyn a gofnodir ar y ffurflenni.<br><br>• Ni chlywodd y panel pam fod angen ei harestio; er iddynt glywed y gofyniad o dan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i gynnal chwiliad i weld a oedd ganddi wrthrych llafnog. Fodd bynnag, gofynnodd y panel pam y gwnaed hyn yn y lleoliad hwn, gan fod yr ardal lle'r cynhaliwyd y chwiliad yn dywyll.<br><br>• Cyfeirir at alcohol fel ffactor effaith; er, ni welodd y panel y fenyw yn ymddwyn fel petai hi wedi bod yn yfed ar fideo'r camera corff. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Pam mae'r amser ar fideo'r corff camera yn wahanol i'r ffurflenni defnyddio grym? Ai camgymeriad gweinyddol yw hwn? |

| Cofnod 4 – (Unigolion ifanc) |
|---|
| Mae grŵp o bobl ifanc wedi bod yn cam-drin aelodau staff yn eiriol mewn bwyty bwyd cyflym. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br>• Nododd y panel yr anawsterau sy’n wynebu’r heddlu wrth ymdrin â’r sefyllfa hon. Nid oedd yr amgylchedd yn ffafriol er mwyn gallu delio â’r sefyllfa yn bwyllog.<br>• Roedd grŵp mawr o bobl ifanc wedi ffilmio’r swyddogion ar eu ffonau symudol a chlywyd un yn gwneud cyhuddiad, a wrthodwyd gan y swyddog yn bwyllog.<br>• Clywyd swyddogion ar sawl achlysur yn cynghori’r unigolyn ifanc i adael yr adeilad. |
| **Meysydd i’w gwella**<br>• Cafodd fideo’r camera corff ei olygu mewn modd nad oedd yn dangos cyd-destun o ran sut roedd swyddogion yn y sefyllfa hynny er mwyn asesu a oedd y defnydd o rym yn gymesur.<br>• Ymddengys bod y swyddog a oedd yn gwisgo’r camera corff wedi colli rheolaeth. Roedd swyddogion eraill, yn y fideo, yn ymddangos yn wrthdrawol ac roeddent yng ngofod personol yr unigolyn ifanc ac yn siarad â’r unigolyn ar yr un pryd. Ymddengys bod hyn wedi gwaethygu amgylchiadau ac yn cyfrannu at yr hyn a oedd yn ymddangos yn amgylchedd caotig.<br>• Nid yw amser fideo’r camera corff yn cyd-fynd â chofnod y ffurflen defnyddio grym.<br>• Ymddengys bod pobl ifanc wedi cael eu trin yn wahanol yn fideo’r camera corff o’i gymharu â’r cofnodion a archwiliwyd, gan nad oeddent wedi’u gosod mewn gefynnau a bod swyddogion wedi dangos dull mwy ymarferol. Nid oedd yn glir pam y cafodd yr unigolyn ifanc hwn ei dynnu o’r lleoliad yn gorfforol o’i gymharu â’r unigolion eraill a oedd gydag ef. Ar y sail hon, nid oedd y panel yn ystyried bod defnyddio grym yn angenrheidiol nac yn briodol.<br>• Roedd y panel yn siomedig o glywed yr hyn a gredir i fod yn un o’r swyddogion dan sylw yn procio un o’r unigolion ifanc pan faglodd wrth adael. Credwyd i’r swyddog gael ei glywed yn chwerthin a gwnaeth y sylw “gwnaethoch chi fwynhau eich taith?”, a barnodd y panel ei fod yn amhroffesiynol ac nid oedd yr ymateb hwn yn dangos yr urddas a’r parch a ddisgwylid. |
| **Materion a godwyd**<br>• Oherwydd nifer y swyddogion a oedd yn bresennol yn y lleoliad, gofynnodd y panel a ddylai dau swyddog fod wedi hebrwng yr unigolyn allan o’r safle gyda’i gilydd, a fyddai o bosibl wedi gwneud |

pethau'n dawelach, yn hytrach na'r un swyddog yn hebrwng yr unigolyn allan mewn ffordd ymosodol?

- Cyfrifoldeb pwy yw golygu fideos sy'n ymwneud â digwyddiadau defnyddio grym? Pa sicrwydd ansawdd a ddarperir i sicrhau bod yr unigolyn sy'n gyfrifol yn golygu'n briodol ar gyfer goruchwyliaeth?

**Cofnod 5 – (unigolion ifanc)**

**Amgylchiad**

Daeth gwybodaeth i law gan y gwasanaeth 111, bod unigolyn wedi ffonio'r gwasanaeth i ddatgan ei fod wedi hunan-niweidio â gwrthrych llafnog ac yn ystyried hunanladdiad. Nid yw'n hysbys a oedd gan yr unigolyn dan sylw y gwrthrych llafnog o hyd a rhoddir gwybod bod y gwrthrych llafnog ar goll.

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Ystyriwyd bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn briodol gan y gofynnwyd am swyddog benywaidd i gefnogi'r unigolyn ifanc hwn.
- Roedd y defnydd o rym wedi'i gyfleu'n dda, yn angenrheidiol, ac yn gymesur yn yr achos hwn. Rhoddodd swyddogion resymeg lafar i'r unigolyn ifanc pan osodwyd gefynnau arno a dywedon nhw y byddent yn fodlon eu tynnu pe bai'n cydymffurfio ac yn dangos ei fod yn gwrando arnynt.
- Dangosodd swyddogion wasanaeth gofalgar canmoladwy er gwaethaf y ffaith bod yr unigolyn ifanc wedi bod mewn gofid mawr ac yn anghydweithredol am gyfnod hir o amser. Clywyd swyddogion yn ystyried eu tôn, yn gofyn beth allent ei wneud i'w helpu ac yn cynnig eu henw cyntaf. Teimlai'r panel fod hwn yn safon ganmoladwy o wasanaeth a ddarparwyd gan y swyddogion.

**Meysydd i'w gwella**

- Roedd y panel wedi'u rhannu ynghylch a oedd y dull cychwynnol gan y swyddogion yn briodol, o ystyried ei bod hi'n ganol y nos, defnyddiwyd fan yr heddlu i rwystro llwybr yr unigolyn ifanc a neidiodd y swyddog cynorthwyol allan o'r cerbyd i'w ddal. Achosodd hyn i'r unigolyn ifanc deimlo'n eithaf gofidus; ond, gwnaeth aelodau eraill sylwadau y byddai hyn wedi bod yn dacteg a ddefnyddiwyd i atal plentyn agored i niwed risg uchel rhag ffoi yn ystod y nos.

**Materion a godwyd**

- A oes hyfforddiant i swyddogion i ddelio â sefyllfaoedd sy'n achosi llawer o straen? Os felly, pa mor aml y cânt eu cynnal?

| Cofnod 6 – (unigolyn Du ac ethnig leiafrifol) |
|---|
| **Amgylchiad**<br><br>Mae'r heddlu'n cael galwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd yn dweud ei fod yn credu bod cyffuriau yn cael eu delio o gerbyd.<br><br>Mae'r heddlu wedi dod o hyd i'r cerbyd sy'n cyfateb i'r disgrifiad. Roedd dau ddyn yn y cerbyd ac roedd trydydd dyn yn agosáu at y cerbyd wrth i swyddogion gyrraedd y lleoliad. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Roedd y swyddog yn glir ynglŷn ag amgylchiadau pam eu bod yn y lleoliad ac eglurodd pam roedd gefynnau'n cael eu gosod. Dangosodd y swyddog ofal a chynghorodd yr unigolyn am hyn ond roedd hefyd yn barchus iawn.<br><br>• Ystyriodd y panel fod y defnydd o rym yn angenrheidiol ac yn gymesur â rhesymeg y swyddog sef er ei ddiogelwch ei hun oherwydd y gwahaniaeth maint rhwng yr unigolyn a'r swyddog.<br><br>• Rhoddodd y swyddog gyfarwyddiadau clir iawn o ran y broses o sut i wneud cwyn os oedd yr unigolyn o'r farn bod hyn yn angenrheidiol.<br><br>• Dim ond un swyddog oedd yn cyfathrebu, a oedd yn gwneud y broses yn glir iawn. Gwelwyd swyddogion eraill yn cefnogi'r chwiliad. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Ar y ffurflen defnyddio grym, nodwyd nad oedd y swyddog wedi'i hyfforddi na'i awdurdodi i gario dyfais taser ac eto mae wedi cofnodi ei fod yn cario dyfais o'r fath.<br><br>• Roedd y panel yn rhanedig yn eu barn wrth drafod a ddylid bod wedi chwilio'r unigolyn Du ac ethnig leiafrifol yn gyntaf, o ystyried bod y ddau deithiwr arall yn wyn o ran ethnigrwydd; fodd bynnag, roedd mwyafrif y panel o'r farn, gan mai'r unigolyn oedd y gyrrwr, fod hyn yn cyfiawnhau y byddai'r swyddogion yn siarad ag ef a'i chwilio yn gyntaf. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Pan fydd grŵp o deithwyr mewn cerbyd yn cael eu stopio, a fyddai'r gyrrwr fel arfer yn cael blaenoriaeth?<br><br>• A oes gwahaniaeth rhwng y derminoleg 'Pasio' neu 'Gwyrdd' yn nodiadau'r goruchwyliwr? |

| Cofnod 7 – (unigolyn Du ac ethnig leiafrifol) |
|---|
| **Amgylchiad**<br><br>Mae unigolyn wedi bygwth ei gymydog gydag offer. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Defnyddiodd swyddogion offeryn cyfieithu i helpu i gyfathrebu â'r unigolyn nad oedd yn siarad llawer o Saesneg.<br><br>• Roedd swyddogion ym ymddangos ac yn swnio'n bwyllog iawn yn eu trafodaethau â'r dioddefwr a'r unigolyn.<br><br>• Canfu swyddogion yr ymholiadau fideo teledu cylch cyfyng a arweiniodd at yr angen i arestio. Oherwydd yr honiad o drais, y consensws oedd bod y penderfyniad i ddefnyddio grym i osod gefynnau ar yr unigolyn yn gymesur ac yn angenrheidiol.<br><br>• O'r lluniau a welwyd, consensws y panel oedd na nodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â chydraddoldeb nac amrywiaeth o ran y digwyddiad hwn. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Fel y nodwyd yn y ffurflen defnyddio grym, un o'r tactegau defnyddio grym a ddefnyddiwyd oedd tynnu dyfais ynni dargludol (taser), nid oedd hyn yn amlwg yn y fideo a welwyd gan y panel.<br><br>• Mae'r fideo'n dangos swyddogion yn trafod meddyginiaeth â'r unigolyn, sy'n datgelu bod ganddo bresgripsiwn ar gyfer anhwylder penodol; fodd bynnag, yn y ffurflen defnyddio grym, mae'n nodi nad oedd cyflwr iechyd hunanddiffiniedig wedi'i gwblhau gan y swyddog ac o dan yr adrannau ar gyfer cymorth meddygol a gynigiwyd neu a ddarparwyd, cofnodwyd hyn fel 'amherthnasol'.<br><br>• Gwelodd y panel swyddogion yn atal yr unigolyn yn gorfforol rhag dychwelyd i'w gartref, rhywbeth nad yw wedi'i grybwyll ar y ffurflen.<br><br>• Aeth y swyddogion ymlaen i osod gefynnau ar yr unigolyn heb ddefnyddio'r offeryn cyfieithu, a ddefnyddiwyd ar ddechrau'r fideo, i esbonio pam roedd angen y gefynnau. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• A oes gan swyddogion sy'n ymateb opsiwn i gysylltu â chyfieithydd? |

## 4. Ymateb i ymholiadau a godwyd

| Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|
| Ar y ffurflenni defnyddio grym, pam mai dim ond rhywedd, ethnigrwydd, anabledd corfforol, cyflwr iechyd meddwl ac ethnigrwydd *'canfyddedig'* sydd wedi'u cynnwys heb ychwanegu *'hunan-ddiffiniedig'*? | *Nid oes gennyf ateb pendant i'r ymholiad hwn ar hyn o bryd a byddaf yn uwchgyfeirio'r ymholiad / arsylwad hwn at dîm uwch-reolwyr yr heddlu.* |
| 1. O fewn cofnod 1, y cyfiawnhad dros osod gefynnau oedd 'arestio'. A oes angen i swyddogion osod gefynnau ar unigolyn sy'n cael ei arestio? Os felly, ar ba gam y caiff gefynnau eu tynnu?<br><br>2. Yn ychwanegol, er bod y swyddog wedi nodi bod ffactorau effaith yn cynnwys alcohol ac iechyd meddwl, o dan yr adran cyflwr iechyd meddwl canfyddedig, atebodd y swyddog nad oedd ganddi gyflwr o'r fath. A oes unrhyw eglurder y gallwch ei gynnig ynglŷn â hyn? | *1. Nid oes gofyniad "cyffredinol" i osod gefynnau yn dilyn arestio unigolyn. Mae'r penderfyniad i osod gefynnau yn un i bob swyddog unigol ei wneud yn seiliedig ar ei asesiad risg gweithredol dynamig ei hunan ac mae pob achos o osod gefynnau yn ddefnydd o rym a rhaid i'r swyddog fod yn fodlon bod yr achos o osod gefynnau yn gyfiawn ac yn gyfreithlon ym mhob amgylchiad.*<br><br>*2. O ran yr ymholiad hwn, byddaf yn gofyn am ymateb gan y swyddog; ond, o ystyried faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y digwyddiad hwn, efallai, a bod yn deg iawn, na fydd yn gallu cofio manylion y digwyddiad. Mae hefyd yn bosibl mai gwall mewnbynnu gwybodaeth wrth lenwi'r ffurflen yw hwn. Bydd yr angen i fewnbynnu data cywir ar y ffurflenni yn adborth i'r Adran Dysgu a Datblygu a'r Adran Hyfforddiant Gweithrediadau Arbenigol i'w dosbarthu'n ehangach i swyddogion.* |
| 1. O fewn Cofnod 2, ni chlywodd y panel y cyfiawnhad dros osod gefynnau. Gofynnwyd i'r fenyw estyn ei dwylo allan. | *1. Byddaf yn trosglwyddo adborth i'r swyddog ynghylch barn y panel. Yn ogystal, byddaf yn* |

| | |
|---|---|
| Gyda phedwar swyddog ar y safle a’r ffaith bod y fenyw yn fach ac yn cydymffurfio, nid oedd y panel wedi’u hargyhoeddi bod y grym a ddefnyddiwyd yn angenrheidiol nac yn gymesur.<br><br>2. Yn ogystal, a oedd rheswm pam nad oes unrhyw oruchwyliwr wedi adolygu’r digwyddiad hwn o ddefnyddio grym?<br><br>3. O ystyried bod hyfforddiant gloywi er diogelu’r cyhoedd yn hanfodol ar gyfer diogelu’r cyhoedd, nododd y panel fod hyfforddiant y swyddog, sy’n destun yr adolygiad hwn, wedi dod i ben. A yw hon yn broblem gyffredin o fewn yr heddlu a sut mae’r heddlu’n monitro cydymffurfedd â’r hyfforddiant hwn? | *codi’r pwynt o fynegi’r cyfiawnhad dros osod gefynnau (ar yr amod bod sefyllfa’n caniatáu hyn) fel ei fod yn cael ei ddeall (cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol) gan yr unigolyn dan sylw a hefyd yn cael ei gofnodi ar fideo’r camera corff.*<br><br>*2. Nid wyf yn gallu rhoi rheswm pam na chafodd cofnod defnyddio grym ei adolygu gan oruchwyliwr. Byddaf yn ychwanegu hyn at adborth y swyddog a’r goruchwyliwr. Mae’n ofynnol i oruchwylwyr adolygu nifer fawr o gofnodion defnyddio grym gan swyddogion a allai fod yn cael eu colli o ganlyniad neu efallai bod y "dasg adolygu" yn dal i fod yn yr arfaeth fel rhan o lwyth gwaith y goruchwyliwr. Anfonir nodyn atgoffa o’r gofyniad i adolygu at bob swyddog.*<br><br>*3. Rwyf wedi egluro mai gwall gweinyddol yw hwn (un sydd wedi digwydd yn gynyddol aml ac sy’n cael sylw). Mae’r swyddogion yn drysu’r blwch sy’n nodi "hyd gwasanaeth" â’r blwch “amser ers sesiwn loywi’r hyfforddiant er diogelu’r cyhoedd ddiwethaf". Mae’n ofynnol i bob swyddog gweithredol gwblhau hyfforddiant gloywi er diogelu’r cyhoedd bob 12 mis. Mae system awtomataidd ar waith sy’n olrhain pryd mae sgiliau fel hyfforddiant er diogelu’r cyhoedd yn dod i ben, ac sy’n anfon nodyn atgoffa at y swyddog a’r goruchwyliwr. Mae’r Adran Hyfforddiant Gweithrediadau Arbenigol hefyd yn cadw prif gopi o’r cofnodion hyfforddi. Os oes* |

| | |
|---|---|
| | *mwy na 12 mis wedi mynd heibio ers hyfforddiant gloywi er diogelu'r cyhoedd swyddog, caiff y swyddog ynghyd â goruchwylwyr ac ati eu hysbysu'n awtomatig nad ydyw bellach yn cael bod yn weithredol na chael cyswllt wyneb yn wyneb ag aelodau'r cyhoedd nes bod hyfforddiant er diogelu'r cyhoedd wedi'i gwblhau.* |
| Ar gyfer cofnod 2 a 6, mae'n nodi nad oedd y swyddog wedi'i hyfforddi na'i awdurdodi i gario dyfais taser ac eto mae wedi rhoi gwybod ei fod yn cario dyfais o'r fath. A ellir egluro hyn? | *Fel sy'n wir am adrannau eraill ar y ffurflen defnyddio grym, mae hyn yn debygol o fod achos bod swyddogion yn gwasgu'r botwm anghywir.*<br><br>*Mae systemau a mesurau rheoli llym ar waith sy'n sicrhau mai dim ond Swyddogion Dyfeisiadau Taser Arbenigol sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant gloywi sgiliau blynyddol gofynnol sydd â'r awdurdod i gario dyfais taser. Os bydd swyddog yn mynd y tu hwnt i'r cyfnod gofynnol rhwng hyfforddiant gloywi sgiliau (12 mis) caiff ei hysbysu'n awtomatig nad yw bellach wedi'i awdurdodi i gario dyfais taser.* |
| O fewn cofnod 3, mae'r amser ar fideo'r camera corff yn wahanol i'r ffurflenni defnyddio grym. Ai camgymeriad gweinyddol yw hwn? | *Yn anffodus, oherwydd natur ddynamig plismona a llawer o ddigwyddiadau defnyddio grym, nid yw'n bosibl i'r swyddogion dan sylw gwblhau'r ffurflen yn syth ar ôl defnyddio grym (am amrywiaeth o resymau). Polisi'r heddlu yw y dylid cwblhau'r ffurflen defnyddio grym cyn i swyddog orffen ei shifft. Felly mae'n debygol y gall fod anghysondeb weithiau rhwng union amseriadau fideo'r camera corff a'r amseriadau ar y ffurflen.* |
| 1. O fewn cofnod 4, oherwydd nifer y swyddogion a oedd yn bresennol yn y lleoliad, gofynnodd y panel a ddylai dau swyddog fod wedi hebrwng yr unigolyn allan o'r | *1. Mae nifer y swyddogion sydd eu hangen i hebrwng unigolyn o sefyllfa benodol yn seiliedig i raddau helaeth ar y sefyllfa dan sylw ynghyd â nifer y swyddogion sydd ar gael. Byddaf* |

| | |
|---|---|
| safle gyda'i gilydd, a fyddai o bosibl wedi tawelu pethau, yn hytrach na'r un swyddog yn hebrwng yr unigolyn allan mewn ffordd a oedd yn cael ei ystyried yn ymosodol?<br><br>2. Cyfrifoldeb pwy yw golygu fideos sy'n ymwneud â digwyddiadau defnyddio grym? Pa sicrwydd ansawdd a ddarperir i sicrhau bod yr unigolyn sy'n gyfrifol yn golygu'n briodol ar gyfer goruchwyliaeth?<br><br>3. Roedd y panel yn siomedig o glywed yr hyn a gredir i fod yn un o'r swyddogion dan sylw yn procio un o'r unigolion ifanc pan faglodd wrth adael. Credwyd i'r swyddog gael ei glywed yn chwerthin a gwnaeth y sylw "gwnaethoch chi fwynhau eich taith?", a barnodd y panel fod hyn yn amhroffesiynol ac nid oedd yr ymateb hwn yn dangos yr urddas a'r parch a ddisgwylid. | *yn gofyn am fwy o fanylion gan y swyddog mewn perthynas â'r digwyddiad hwn a mater i'r swyddog unigol yw cyfiawnhau ei weithredoedd o fewn cyfyngiadau'r gyfraith a phwerau'r heddlu. Yr arfer gorau lle bo modd fyddai i ddau (neu fwy) swyddog hebrwng unigolyn o sefyllfa ymfflamychol i ychwanegu haen ychwanegol o reolaeth at y sefyllfa.*<br><br>2. *O ran y digwyddiadau defnyddio grym a gyflwynwyd i'r panel i'w hadolygu, darparwyd hyn gan bwynt cyswllt yr heddlu. NID yw'r fideo'n cael ei olygu mewn unrhyw ffordd gan y pwynt cyswllt a darperir y fideo sydd wedi'i lanlwytho i feddalwedd yr heddlu i'r panel.*<br><br>*Bydd y fideo'n dechrau 30 eiliad cyn i'r swyddog actifadu'r camera corff ond, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol (actifadu dyfais taser neu actifadu goleuadau glas ar rai cerbydau'r heddlu – ceir plismona ffyrdd a cheir arfau tanio), rhaid i'r swyddog actifadu'r camera corff yn gorfforol ei hun, a'r swyddog sy'n penderfynu pryd i'w actifadu ac i gyfiawnhau yn unol â hynny.*<br><br>*Os caiff unrhyw fideo ei olygu, byddai hyn yn cael ei nodi ar system yr heddlu, a chedwir y fideo gwreiddiol bob amser.*<br><br>3. *Disgwylir i bob swyddog ymddwyn mewn modd proffesiynol bob amser. Derbynnir bod angen i swyddogion ddefnyddio iaith ymosodol ac ati ar adegau; os* |

| | |
|---|---|
| | *yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hyn ac mae hefyd yn wir, mewn sefyllfaoedd straen uchel, peryglus neu ymfflamychol, y gall swyddogion siarad mewn ffordd na fydd o reidrwydd yn briodol mewn amgylchiadau mwy rheoledig a thawelach.*<br><br>*Fodd bynnag, wedi dweud yr uchod, ni ddylai swyddogion "brocio" na "sarhau" unigolion yn y modd a ddisgrifir gan nad yw hyn yn ymddygiad proffesiynol, yn amlwg. Bydd goruchwyliwr y swyddog yn cael gwybod am sylwadau'r panel a bydd gofyn iddo siarad â'r swyddogion ynghylch y mater.* |
| A oes hyfforddiant i swyddogion ddelio â sefyllfaoedd llawn straen tebyg i gofnod 4? Os felly, pa mor aml y cânt eu cynnal? | *Mae pecynnau hyfforddiant er diogelu'r cyhoedd yr heddlu yn cynnwys sawl senario lle mae sefyllfaoedd yn efelychu straen uchel gan gynnwys ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol. Mae hyfforddiant er diogelu'r cyhoedd yn cael ei gwblhau gan bob swyddog gweithredol bob 12 mis.*<br><br>*Mae gwahoddiad agored i unrhyw aelodau'r panel fynychu hyfforddiant er diogelu'r cyhoedd wyneb yn wyneb i arsylwi, a gall Rhingyll Hawksworth drefnu hyn os oes angen.* |
| Ar gyfer cofnod 6, os yw grŵp o deithwyr mewn cerbyd yn cael eu stopio, a fyddai'r gyrrwr fel arfer yn cael blaenoriaeth i gael ei chwilio yn gyntaf? Os na, a ddylid bod wedi chwilio'r unigolyn Du neu ethnig leiafrifol yn gyntaf? | *Yn gyffredinol, mae'n debyg y byddai gyrrwr cerbyd yn cael blaenoriaeth i gael ei chwilio yn gyntaf ynghyd ag unrhyw deithiwr yn y sedd flaen. Yn syml, mae hwn yn ddull systematig gan swyddogion yn gweithio o "flaen cerbyd i gefn y cerbyd" oni bai bod digon o swyddogion i chwilio pob teithiwr mewn cerbyd yn ddiogel ar yr un pryd.*<br><br>*Yn ogystal, os oes cudd-wybodaeth yn gysylltiedig â cherbyd penodol, mae'n fwyaf tebygol y bydd y gyrrwr yn cael ei chwilio yn gyntaf o ystyried ei fod yn* |

| | |
|---|---|
| | *rheoli'r cerbyd yn llwyr ar y pryd.*<br><br>*O ran blaenoriaethu gwirio unigolion Du ac ethnig leiafrifol mewn cerbyd, ni ddylai ethnigrwydd yr unigolyn gael unrhyw ddylanwad gwirioneddol ar y drefn y mae unigolion yn cael eu chwilio oni bai bod rheswm penodol dros wneud hynny fel yr un a amlinellwyd uchod.* |
| A oes gwahaniaeth rhwng y derminoleg 'Pasio' neu 'Gwyrdd' yn nodiadau'r goruchwyliwr? | *Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y derminoleg. Yn gyffredinol, ni all heddlu unigol (fel Heddlu Dyfed-Powys) ddiwygio'r templedi a ddefnyddir o fewn system rheoli cofnodion Niche ac mae sawl templed ar gael ar gyfer adolygiad goruchwylio.*<br><br>*Byddai gwyrdd yn dynodi bod y goruchwyliwr yn "hollol fodlon" â'r cofnod yn dilyn yr adolygiad.*<br><br>*Byddai pasio yn dangos bod y cofnod wedi pasio'r meini prawf adolygu ond EFALLAI fod gwallau gweinyddol bach ac ati yn yr adroddiad.* |
| 1. Ar gyfer cofnod 7, ar y ffurflen defnyddio grym, mae'n nodi mai'r tactegau a ddefnyddiwyd oedd tynnu dyfais ynni dargludol (taser), nid oedd hyn yn amlwg yn y fideo a welwyd gan y panel. A ellir egluro hyn?<br><br>2. Mae'r fideo'n dangos swyddogion yn trafod meddyginiaeth â'r unigolyn a gadarnhaodd fod ganddo bresgripsiwn ar gyfer anhwylder; fodd bynnag, ar y ffurflen defnyddio grym, mae'n nodi nad oedd cyflwr iechyd hunanddiffiniedig wedi'i gwblhau gan y swyddog ac o dan yr adrannau ar gyfer cymorth meddygol a gynigiwyd neu a ddarparwyd, cofnodwyd hyn fel 'amherthnasol'. | *1. Mae yna nifer o "ddulliau cludo" y gall swyddogion dyfeisiadau taser eu defnyddio yn dibynnu ar amgylchiadau unrhyw ddigwyddiad.*<br><br>*Mae'r protocol adrodd cyfredol yn nodi bod unrhyw beth heblaw swyddog yn rhoi ei ddwylo ar y ddyfais taser tra ei bod dal yn y wain yn cael ei ddosbarthu fel "dyfais taser wedi'i thynnu" at ddibenion adrodd defnyddio grym.*<br><br>*Mae rhai o'r ystumiau y mae dyfeisiadau taser yn cael eu dal ynddynt ar ôl cael eu tynnu wedi'u cynllunio i fod yn ddisylw ac yn llai bygythiol nag anelu'r ddyfais at yr unigolyn (ac ar yr un pryd yn caniatáu anelu'r ddyfais taser yn gyflym os oes angen). Yn gyffredinol, bydd y dyfeisiadau taser yn cael eu dal* |

| | |
|---|---|
| | *yn y ffyrdd canlynol ac nid ydynt yn debygol o gael eu gweld ar fideo camera corff y swyddog oherwydd yr ongl y mae'n rhaid cysylltu'r camera â fest tactegol y swyddog:*<br>• *Safle deheuol – mae'r ddyfais taser wedi'i hanelu at y llawr ac wedi'i lleoli'n agos iawn at gorff y swyddog tua uchder y gwasg.*<br>• *Safle deheuol disylw – fel uchod ond byddai llaw arall y swyddog wedi'i lleoli dros / o flaen y ddyfais taser fel ei bod yn llai gweladwy ac yn llai bygythiol wrth siarad ag unigolyn.*<br>• *Safle parod disylw – mae'r ddyfais taser yn cael ei dal yn "llaw gref" y swyddog (h.y. yn llaw dde os yw'n llaw dde), yn barod i'w hanelu ond mae wedi'i lleoli y tu ôl i goes y swyddog gan bwyntio tuag at y llawr felly nid yw'n weladwy i'r unigolyn i bob pwrpas.*<br>*Mae croeso i aelodau'r panel arsylwi hyfforddiant dyfeisiadau taser wyneb yn wyneb (o dan amodau rheoledig) a gall y Rhingyll Hawksworth drefnu hyn os oes angen.*<br><br>2. *Gallai hyn fod yn gamgymeriad gweinyddol neu'n esgeulustod ar y ffurflen defnyddio grym a gwblhawyd ar ôl y digwyddiad, yn ôl pob tebyg. Anfonir adborth allan fel sy'n berthnasol am bwyntiau blaenorol ynghylch cywirdeb gwybodaeth.* |
| A oes gan swyddogion sy'n ymateb opsiwn i gysylltu â chyfieithydd pan fo angen? | *Mae gan bob swyddog gweithredol rheng flaen derfynellau data symudol sydd hefyd yn gweithredu fel ffonau symudol.*<br>*Mae gan bob swyddog fynediad at wasanaeth cyfieithu swyddogol "llinell iaith" sydd ar gael dros y ffôn 24/7.* |

## 5. Camau nesaf

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cael gwahoddiad i fynychu'r Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu, sef cyfarfod sy'n cynnwys Prif Arolygwyr o bob rhanbarth Heddlu Dyfed-Powys i graffu ar berfformiad o ran defnyddio grym a stopio a chwilio. Amcan y cyfarfod hwn yw rheoli perfformiad mewn ffordd holistaidd, effeithiol, a chyson ar gyfer Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu ledled Heddlu Dyfed-Powys. O fewn y fforwm hwn y bydd canfyddiadau'r panel sicrhau ansawdd yn cael eu rhannu a bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

Bydd y panel sicrhau ansawdd yn parhau i graffu ar y defnydd o rym a stopio a chwilio yn flynyddol i asesu cynnydd yn y meysydd hyn.